# DOGFEN BRIFFIO AR YR ASESIAD O'R BOBLOGAETH: PLANT A PHOBL IFANC

## 1. Cyflwyniad

Drwy brosiect Deall ein Cymunedau, mae gwasanaethau cyhoeddus yn meithrin dealltwriaeth well o'r pethau da am gymunedau, yr hyn sydd o bwys i bobl a sut gall eu profiadau a'r hyn sydd ganddynt i'w gynnig ein helpu i gynllunio a darparu gwasanaethau.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) wedi'i rhoi ar waith i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn gwneud popeth y gallant i gefnogi pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chefnogaeth i ddweud eu dweud a chymryd rhan wrth reoli eu llesiant eu hunain. Mae'r Ddeddf yn golygu y bydd angen i wasanaethau cyhoeddus sicrhau bod y gefnogaeth iawn ar gael i'r bobl y mae ei hangen arnynt ar yr adeg iawn ac yn y ffordd iawn.

O dan y Ddeddf hon, rhaid i wasanaethau cyhoeddus gynnal a chyhoeddi Asesiad Poblogaeth, sy'n edrych ar:

- yr anghenion gofal a chefnogaeth, ac anghenion cefnogaeth gofalwr;
- i ba raddau nad yw'r anghenion hynny'n cael eu diwallu;
- ystod a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu'r anghenion hynny; a
- sut y cyflwynir gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yng Nghwm Taf, rydym wedi bod yn casglu llawer o wybodaeth ar gyfer yr Asesiad, gan y bobl sy'n gwneud penderfyniadau polisi a chomisiynu am wasanaethau, y bobl sy'n darparu gwasanaethau a'r bobl sy'n derbyn gwasanaethau. Er mwyn edrych ar yr holl wybodaeth hon mewn ffordd drefnus, defnyddiwyd saith 'thema' y Ddeddf;


- Gofalwyr;
- Plant a phobl ifanc;
- Anabledd dysgu;
- Iechyd meddwl;
- Pobl hŷn;
- Anabledd corfforol a nam synhwyraidd;
- Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Yna, treuliwyd amser yn siarad â'r bobl hyn am y penawdau a ddaeth i'r amlwg o dan y themâu hyn ac yn meddwl o ddifrif am sut maent yn effeithio ar bobl a'r hyn y gallwn ni, fel gwasanaethau cyhoeddus, ei wneud i ddiwallu anghenion

pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau, yn y ffordd orau bosibl, nawr ac yn y dyfodol.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys y penawdau sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a chefnogaeth. Mae'r ddogfen yn dangos sut mae'r penawdau hyn yn cyd-fynd â'r 'darlun mwy' a'r negeseuon allweddol sy'n ymwneud â'r *holl* themâu a'r hyn rydym yn ei wneud ar hyn o bryd a/neu'r hyn y gallem ei wneud i ymdrin â'r penawdau hyn.

Mae'r adroddiad Asesiad Poblogaeth cyffredinol yn cynnwys y brif wybodaeth ar draws yr holl themâu.




Mae'r triongl yn dangos rhannau gwahanol ein gwaith sydd, gyda'i gilydd, yn creu Adroddiad Asesiad Cwm Taf. Cefnogir pob lefel o'r Asesiad hwn gan lefel fanylach o ddata a gwybodaeth. Lluniwyd yr Adroddiad Asesiad fel hyn fel y gall pob darllenydd archwilio'r wybodaeth rydym wedi'i chasglu a'i dadansoddi mor fanwl ag yr hoffent a gallant ddilyn meysydd diddordeb penodol. Mae'r holl wybodaeth a gasglwyd drwy gydol y prosiect i lywio'r penawdau yn y ddogfen friffio hon hefyd ar gael mewn llyfrgell ar-lein.

## 2. Plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a chefnogaeth

Diffiniad: *Mae'r bennod plant a phobl ifanc yn cynnwys pobl 0-18 oed, yn ogystal â'r rhai sy'n gymwys ar gyfer gwasanaethau nes eu bod yn 25 oed, gan gynnwys y rhai sy'n gadael gofal. Trafodir plant ag anableddau a gofalwyr ifanc mewn penodau eraill*.

### Cyd-destun Strategol:

Mae Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cwm Taf yn datblygu datganiad comisiynu i blant a theuluoedd er mwyn sicrhau eglurder ffocws ar y blaenoriaethau a fydd yn cyflwyno nodau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Diben y datganiad yw pennu'r cyfeiriad teithio ar gyfer darparu gwasanaethau hygyrch, integredig ac o safon a fydd yn canolbwyntio ar wella addysg, iechyd a llesiant plant, pobl ifanc a theuluoedd yn rhanbarth partneriaeth Cwm Taf.

Bydd yn cysoni'r cynlluniau gwasanaeth presennol ac yn cryfhau trefniadau cydweithio rhwng y GIG, awdurdodau lleol a'r sectorau gwirfoddol a phreifat.

Yng nghanol y cynllun hwn, bydd partneriaid yn cytuno ar gyfres o amcanion a rennir, a dull y cytunwyd arno o asesu'r cynnydd a wnaed. Bydd yn sicrhau yr anogir gwaith amlasiantaeth ac y gall yr holl weithwyr proffesiynol weld sut mae eu gwaith yn cyfrannu at les cyffredinol plant, pobl ifanc a theuluoedd ar draws Cwm Taf. Bydd y strategaeth yn ceisio lleihau'r ddibyniaeth ar ymyriadau dwys o blaid ymyriad cynnar, atal a hyrwyddo cymunedau cryf.

## 3. Y sefyllfa bresennol yng Nghwm Taf

Mae Cwm Taf yn cynnwys dwy ardal awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful. Amcangyfrifwyd mai'r boblogaeth yng nghanol 2015 oedd 296,735[1]. Merthyr Tudful yw'r awdurdod lleol lleiaf yng Nghymru â phoblogaeth o 59,324 ac mae gan RhCT y drydedd boblogaeth fwyaf, sef 237,411.

Amcangyfrifir bod poblogaeth plant yng Nghwm Taf wedi cynyddu ychydig rhwng 2005 a 2015 - i fyny 2.2 y cant (6,406 o bobl). Mae'r twf yn y boblogaeth wedi bod yn fwy ym Merthyr Tudful nag yn RhCT, i fyny 5.3 y cant ac 1.4 y cant yn y drefn honno.

Mae gan Gwm Taf broffil oedran cymharol ifanc â 62,210 o blant, sef 21 y cant o'r boblogaeth (h.y. mae 1 o bob 5 person sy'n byw yng Nghwm Taf o dan 18 oed). Oedolion ifanc (18-24 oed) yw 9 y cant o'r boblogaeth.

Ar draws Cwm Taf, mae'r boblogaeth gyffredinol 0-24 oed wedi bod yn gostwng ers 2011, i lawr o 90,442 i 89,772. Bu gostyngiad tebyg i lawr 0.8 y cant dros yr un cyfnod.

### Amcanestyniadau poblogaeth plant a phobl ifanc:

Mae amcanestyniadau ar sail poblogaeth 2014 yn dangos y bydd poblogaeth gyffredinol y bobl 0-24 oed yn gostwng 1.6 y cant rhwng 2016 a 2025 ar draws Cwm Taf[2]. Y gostyngiad yn genedlaethol yw 1.1 y cant. Yn y grŵp oedran hwn, rhagamcenir y bydd nifer y bobl 16-24 oed yn gostwng fwyaf. Mae'n debygol y bydd nifer y plant a phobl ifanc, fel cyfran o gyfanswm y boblogaeth, yn cynyddu 29 y cant o'r holl bobl sy'n byw yng Nghwm Taf. Mae hyn er gwaethaf y gostyngiad a ragamcenir yn nifer y plant a phobl ifanc.

### Daffodil: Rhagamcanu'r angen am wasanaethau gofal:

Rhagamcenir y bydd Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful yn gweld cynnydd canran bach yn nifer y plant 0-17 oed sy'n dioddef cam-drin ac esgeulustod.

Rhagamcenir y bydd salwch hirsefydlog mamau, a'u ffyrdd o fyw, yn dirywio ychydig ar draws Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf.

Rhagwelir y bydd beichiogrwydd yn yr arddegau'n gostwng 18.5 y cant ym Merthyr a 9.5 y cant yn RhCT hyd at 2019.

---

[1] Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2015 poblogaeth plant a phobl ifanc (Swyddfa Ystadegau Gwladol)
[2] Amcanestyniadau ar sail 2014 poblogaeth plant a phobl ifanc (Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Ar y cyfan, rhagwelir y bydd gofalwyr ifanc yn gostwng ar draws y ddwy ardal awdurdod lleol.

## 4. Penawdau

***Mae Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) yn cael effaith aruthrol ar iechyd a lles yn nes ymlaen mewn bywyd.***

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cynnal ymchwil sydd wedi cynyddu ein dealltwriaeth o'r effeithiau tymor hir y gall profiadau negyddol yn ystod plentyndod eu cael ar unigolion a'r gymdeithas ehangach[3]. Canfu'r astudiaeth i Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) yng Nghymru fod plant sy'n dioddef cam-drin yn fwy tebygol o gael eu cynnwys mewn trais a chamddefnyddio cyffuriau ac alcohol. Mae llawer o'r problemau iechyd rydym yn eu gweld heddiw ymhlith oedolion yn gallu deillio o blentyndod. Dywedodd yr Athro Mark Bellis, Cyfarwyddwr Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru, "…darparu amgylcheddau diogel a meithringar i bob plentyn yng Nghymru yw'r ffordd orau o sicrhau ein bod yn meithrin oedolion iachach a hapusach sy'n cyfrannu at eu cymunedau ac at yr economi."

O'r wybodaeth a gyflwynir yn y bennod hon, rydym yn gwybod bod gormod o blant yng Nghwm Taf mewn gofal ac, i'r rhan fwyaf, byddant wedi profi trawma sy'n gysylltiedig â cham-drin, esgeulustod a cholli teulu a ffrindiau a gwahanu rhagddynt cyn mynd i ofal. Yn bwysig, mae'r profiadau hyn yn effeithio ar y ffordd y mae plant sy'n derbyn gofal yn gallu teimlo amdanynt eu hunain a chynyddu'r perygl o broblemau iechyd meddwl.

Yn ôl y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yng Nghymru, mae hyd at 25 y cant o blant a leolir ar gyfer mabwysiadu'n cael profiadau yn ystod plentyndod y mae angen cefnogaeth arbenigol neu wedi'i thargedu ar eu cyfer. Fel rhieni corfforaethol, rhaid i ni weithio i helpu plant i wella yn dilyn unrhyw niwed o brofiadau niweidiol megis cam-drin ac esgeulustod drwy feithrin gwydnwch ac ymdrin ag anawsterau iechyd meddwl.

Mae mynediad amserol i'r gofal iechyd meddwl iawn yn hanfodol. O adborth rhanddeiliaid, rydym yn gwybod bod cyrchu gwasanaeth cwnsela trawma arbenigol i blant sy'n derbyn gofal yn broblem ar draws Cwm Taf. Yn genedlaethol, nodwyd bod oedi a brofir gan bobl ifanc y mae angen help chwanegol arnynt gyda'u hiechyd meddwl fel un o flaenoriaethau Comisiynydd Plant Cymru.

Nid yw profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn gyfyngedig i blant sy'n derbyn gofal a chefnogaeth yn unig – yn anffodus bydd llawer o blant o'r boblogaeth gyffredinol hefyd yn agored i gam-drin, esgeulustod a phrofiadau niweidiol. Mae blaenoriaethu'r blynyddoedd cynnar a chanolbwyntio adnoddau ar ymyrryd ac atal yn gynnar er mwyn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol ymddygiadau niweidio iechyd yn hanfodol er mwyn sicrhau y caiff pob plentyn yng Nghwm Taf y dechrau gorau posibl mewn bywyd.

---

[3] Gweler y Bennod Gymdeithasol am wybodaeth ychwanegol

*Mae mynediad amserol i'r gofal iechyd meddwl iawn yn hanfodol er mwyn i ni gefnogi iechyd meddwl gwell ymhlith plant a phobl ifanc a lleihau pwysau ar wasanaethau angen lefel uchel fel CAMHS.*

Mae plant a pobl ifanc yn wynebu llawer o heriau, ond maent yn ein rhybuddio bod yn rhaid i ni beidio â meddygoli tyfu i fyny[4]. Mae'r adroddiad Gwneud Synnwyr a luniwyd gan bobl ifanc, yn argymell cefnogaeth gan bobl maent yn ymddiried ynddynt - ffrindiau, gwasanaethau cwnsela addysgol ac athrawon - fel ffordd o ddiwallu'r rhan fwyaf o anghenion emosiynol a datblygiad cyffredinol plant a phobl ifanc. Mae'r bobl ifanc yn amlygu pwysigrwydd cael help priodol ar y cyfle cyntaf posibl - yn hytrach na gadael i broblemau waethygu nes eu bod yn argyfyngau. Mae'r canfyddiad hwn yn gyson iawn ag ysbryd ymyriad cynnar fel yr argymhellwyd gan Ddeddf GCLl a Deddf LlCD.

Ymgynghorodd yr adroddiad â 500 o ddefnyddwyr CAMHS ac roedd ganddo'r canfyddiadau allweddol canlynol:

- Mae gan 75 y cant o ddefnyddwyr CAMHS brofiad negyddol o CAMHS;
- Mae llai na hanner defnyddwyr CAMHS yn cytuno yr helpodd y gwasanaeth iddynt wella a symud ymlaen;
- Dywedodd 75 y cant o ddefnyddwyr CAMHS fod y gwasanaeth yn gyfeillgar ac yn hawdd mynd ato;
- Byddai'n well gan 56 y cant o ddefnyddwyr CAMHS droi at ffrindiau, byddai'n well gan 44 droi at wasanaethau cwnsela addysg a byddai'n well gan 39 y cant droi at athrawon; a
- Dywedodd 29 y cant mai'r rhan orau o CAMHS oedd cael y cyfle i siarad â rhywun.

Mae tystiolaeth o ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Eye to Eye, fel rhan o brosiect Creu Llais yn Rhondda Cynon Taf, yn ychwanegu rhagor o gefnogaeth at ganfyddiadau adroddiad Gwneud Synnwyr. Ategwyd gallu siarad yn agored yn yr ysgol ynghylch pam mae pobl yn hunan-niweidio neu'n teimlo'n orbryderus ac yn ddigalon, a chael cefnogaeth cyfoedion, ym marn 250 o bobl ifanc 14-18 oed a gymerodd ran.

Canfyddiadau allweddol ar y ffyrdd gorau o gael cefnogaeth ar gyfer hunan-niweidio ac iechyd meddwl:

- Dylid trafod hunan-niwed mewn gwersi ABCh;
- Gwahodd siaradwyr gwadd i ysgolion i siarad am hunan-niwed ac iechyd meddwl;
- Cynnal gweithdai i helpu pobl ifanc i ddysgu sut mae mynd i'r afael â materion fel hunan-niwed, straen, gorbryder ac iselder;
- Creu ystafell ddicter i bobl ifanc fynd iddi a mynegi eu hunain;

[4] Adroddiad gan bobl ifanc ar eu llesiant a'u hiechyd meddwl - Ionawr 2011


- Mwy o hyfforddiant i unrhyw un sy'n ymwneud â phobl ifanc am sut mae ymdrin â rhywun sy'n hunan-niweidio neu sy'n ymdopi â straen, pryder, iselder; a
- Hyfforddiant rhwng cyfoedion - fel y gall ffrindiau gefnogi eu ffrindiau mewn angen yn well.

*Cafwyd bod lefelau o lesiant goddrychol yn rhagweld iechyd y dyfodol, marwolaeth, cynhyrchiant ac incwm.*

Rydym yn gwybod y dangoswyd bod profiadau niweidiol plant sy'n derbyn gofal yn cael effaith gydol oes, gan ei gwneud yn bwysicach ymdrin â lles plant pan fyddant mewn gofal. Lles da yw sylfaen unrhyw gyfle o lwyddo wrth sicrhau y gall plant mewn gofal ffynnu a symud ymlaen o brofiadau trawmatig. Cafwyd bod lefelau o les goddrychol yn rhagweld iechyd y dyfodol, marwolaeth, cynhyrchiant ac incwm[5].

Ym Merthyr Tudful, rydym wedi dechrau creu sail dystiolaeth o lesiant goddrychol[6] plant sy'n hysbys i wasanaethau cymdeithasol. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn y Flwyddyn Newydd er mwyn creu llinell sylfaen gadarn. Gallwn gyflwyno rhai canfyddiadau rhagarweiniol o'r gwaith a wnaed hyd yn hyn.

Roedd gan blant sy'n hysbys i wasanaethau cymdeithasol sgôr lles lawer is na phlant o'r boblogaeth gyffredinol. O uchafswm sgôr 5, sgôr plant sy'n hysbys i wasanaethau cymdeithasol oedd 2.87 o'i chymharu â 3.9 i blant yn y boblogaeth gyffredinol. Mesurwyd tair elfen wahanol o les ac mae Ffigur 1 yn dangos eu sgorau.




*Ffigur 1 Lles goddrychol plant sy'n hysbys i wasanaethau cymdeithasol, Ffynhonnell: Tîm Perfformiad CBSMT*

Mae Ffigur 1 uchod yn nodi mai elfen 'Teimlad Da' lles sydd â'r sgôr isaf. Mesurir yr elfen hon o les yn ôl y datganiadau canlynol:

[5] Adroddiad Hapusrwydd y Byd, 2013 http://worldhappiness.report/
[6] Measuring Well-Being: A Literature Review Cymdeithas y Plant (2015)

- Dwi wedi bod yn teimlo'n obeithiol
- Dwi wedi bod yn teimlo'n ymlaciedig
- Dwi wedi bod yn meddwl yn glir

Mae tystiolaeth ansoddol bechgyn sy'n derbyn gofal yn RhCT yn cyflwyno darlun tebyg o les isel. Roeddent yn eithaf negyddol am eu profiad eu hunain o'u bywydau a'u cymunedau.

Pan ofynnwyd iddynt am yr hyn a fyddai'n gwneud pethau'n well, roedd y bechgyn yn siarad am lendid yr amgylchedd - heb offer cyffuriau, sbwriel, tipio anghyfreithlon a baw cŵn. Mae'r cysylltiadau rhwng lles cadarnhaol a'r amgylchedd wedi'u hen sefydlu[7] ac ymchwilir i'r materion hyn ymhellach yn y ddogfen friffio Lles Amgylcheddol, sy'n rhan o'r Asesiad Lles.

O ran hyrwyddo lles plant sy'n derbyn gofal, rydym yn gwybod bod perthnasoedd cadarnhaol, sefydlog a dibynadwy o'r pwys mwyaf. Mae ymchwil plant sy'n derbyn gofal hefyd yn dangos bod ffactorau pwysig eraill yn cynnwys cael ymdeimlad o reolaeth a dylanwad dros eu bywydau, teimlo'n ddiogel yn emosiynol ac yn gorfforol, a chael naratif am eu bywyd sy'n cyfrannu at ymdeimlad diogel o hunan[8]. Mae'r themâu hyn wedi'u hailadrodd yn lleol gan blant sy'n derbyn gofal ar draws Cwm Taf.

O'n hymchwil ein hunain yng Nghwm Taf, rydym yn gwybod bod plant a phobl ifanc yn y boblogaeth gyffredinol eisiau cael pobl yn eu bywydau y gallant ymddiried ynddynt; maent am gael dylanwad dros eu bywydau eu hunain a chael eu clywed.

Fel cyrff cyhoeddus, mae angen i ni fod â ffocws cliriach ar helpu plant i adfer o gam-drin ac esgeulustod ac, er mwyn i ni fabwysiadu agenda ataliol yn wirioneddol, rhaid i ni sicrhau bod gwella lles yr holl blant a'u teuluoedd yn cael ei flaenoriaethu er mwyn creu Cwm Taf sy'n fwy cyfartal, yn iachach ac yn fwy llewyrchus, gwydn, cydlynol, â diwylliant bywiog sy'n creu cyfraniad cadarnhaol yn fyd-eang (Y Gymru a Garem fel yr amlinellwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015).

***Mae angen i ni wella'r broses o gynnwys plant a phobl ifanc, ceisio'u barn a gwrando'n astud ar yr hyn maent yn ei ddweud.***

Mae'r pennawd hwn yn atgyfnerthu bod angen i ni wella'r broses o siarad â phlant a phobl ifanc, ceisio'u barn a gwrando'n astud ar yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud. Un o'r canfyddiadau allweddol yn arolwg Viewpoint Rhondda Cynon Taf oedd bod disgyblion yn teimlo nad oedd neb yn gofyn iddynt am eu barn, eto maent wedi dangos i ni yn ystod yr asesiad poblogaeth hwn eu bod am gyfrannu a dweud eu dweud a bod ganddynt syniadau am y ffordd orau o ddiwallu eu hanghenion. Dyma rai o'r dyfyniadau o ymgysylltu â phobl ifanc:

[7]Good Places, Better Health
[8]Children and Young People's Views on Being in Care (2015) Coram Voice

*“Mae’n bwysig cael barn pobl ifanc oherwydd mai dyna pwy rydych yn ceisio helpu.”*

*“Mae’n dda mynegi barn. Dwi’n fodlon rhoi syniadau am sut i wella gwasanaethau.”*

*"Dwi’n mwynhau cymryd rhan. Dwi’n teimlo ei bod hi’n bwysig cynnwys y genhedlaeth iau.”*

*“Mae’n dda i’n lleisiau gael eu clywed.”*

*“Dwi’n meddwl ei fod e’n dda gan ei fod e’n rhoi cyfle i ni wneud newid.”*

Mae’n bryd i ni gymryd sylw a dechrau gweld plant a phobl ifanc fel ased anhygoel yn y gymuned, yn adnodd nad yw wedi'i ddefnyddio a all ein helpu i gyflawni’r canlyniadau rydym i gyd yn gweithio i’w cyflawni.

## 5. Cysylltiadau â phenawdau eraill a themâu cyffredin

Nid yw’r pethau sy’n effeithio ar blant a phobl ifanc sy’n derbyn gofal a chefnogaeth yn annibynnol. Mae’r un pethau’n debygol o effeithio ar bobl eraill sy’n defnyddio gwasanaethau gofal a chefnogaeth. Mae rhai o’r themâu cyffredin a nodir drwy'r gwaith hwn yn cynnwys:

### Atal

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ganolbwyntio ar atal. Mae digonedd o dystiolaeth ymchwil i ddangos y manteision i bobl a’r gymdeithas ehangach o gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd. Mae gwreiddiau llawer o’r materion a nodir yn y bennod hon yn cael eu creu cyn geni ac yn gynnar yn ystod plentyndod. Felly, mae’n gwneud synnwyr ein bod yn gwneud ymrwymiad i ganolbwyntio adnoddau ar atal problemau rhag digwydd neu ymyrryd yn gynnar er mwyn eu hatal rhag gwaethygu.

### Iaith

Mae ymchwil ar gyfer y bennod hon wedi amlygu pwysigrwydd ystyr ac iaith. Er bod gwasanaethau atal ac ataliol yn dermau sy’n hysbys iawn nid oes ganddynt ddealltwriaeth gyffredinol ymysg y sefydliadau a gwasanaethau gwahanol sy’n gweithio gyda phlant a’u teuluoedd.

Byddai sefydlu diffiniad o atal wedi’i ddeall yn gyffredin gan yr holl ddarparwyr gwasanaeth a sefydliadau ar draws Cwm Taf yn sicrhau y gallwn ailganolbwyntio adnoddau ar weithgareddau a fydd yn cyflwyno manteision gweithio mewn ffordd sy’n atal problemau, yn hytrach nag ymateb iddynt.

### Rhannu data

Mae Iechyd Cyhoeddus yn argymell mai 1,000 o ddiwrnodau cyntaf bywyd, o genhedlu i ddwy flwydd oed, yw llinell amser fwyaf arwyddocaol i wneud gwahaniaeth i fywyd rhywun. Fodd bynnag, mae cynnal yr Asesiad Poblogaeth

hwn wedi amlygu bod rhannu data a gwybodaeth yn gyfyngedig yn ystod y llinell amser hon yn union. Mae'r rhan fwyaf o'r data rydym yn eu defnyddio i broffilio plant agored i niwed yn digwydd ar ôl i'r plentyn gael cysylltiad â phrofiadau niweidiol - eto mae'r gwaith proffilio hwn yn aml yn cael ei ddisgrifio fel gwaith ataliol pan mai ymyrryd yn gynnar ydyw mewn gwirionedd.

## Asesiad risg

Nododd rhanddeiliaid ddiffyg dull cyson ar gyfer asesu risg ar draws Cwm Taf fel rhwystr i weithio'n effeithiol er mwyn atal problemau neu allu ymyrryd yn gynnar.

## Magu plant

Mae rhaglenni sy'n cefnogi magu plant yn effeithiol yn ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ond, o'n hymchwil, rydym yn gwybod y gall derbyniad dosbarthiadau magu plant yng Nghwm Taf fod yn wael, mae canlyniadau'n aneglur, ac rydym yn ansicr pa raglenni magu plant sydd fwyaf effeithiol. Mae adborth gan randdeiliaid yn awgrymu nad yw rhai gwasanaethau ataliol, fel dosbarthiadau magu plant, yn dderbyniol i deuluoedd gan eu bod yn teimlo eu bod wedi'u stigmateiddio oherwydd eu bod wedi'u targedu. Mae rhanddeiliaid yn awgrymu y dylai dosbarthiadau magu plant fod yn wasanaeth cyffredinol. Er mwyn codi dyheadau teuluoedd diamddiffyn a chynyddu eu cadernid, mae angen iddynt fod yn agored i fathau gwahanol o deuluoedd – ni fydd hyn yn digwydd mewn rhaglenni sy'n dod â theuluoedd agored i niwed yn unig ynghyd.